



Eich cyf P-05-986
Ein cyf DET/01405/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

8 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mehefin ynghylch deiseb P-05-986 i ganiatáu i gampfeydd bach a safleoedd hyfforddi ailagor.

Er mwyn gallu dychwelyd i chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ddiogel, mae Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru wedi sefydlu nifer o grwpiau cynllunio ar ein cychwyniad ni. Mae'r grwpiau, gyda chynrychiolwyr o weithgareddau chwaraeon eang, wedi cael y dasg o ystyried heriau mwy penodol ynghylch y themâu canlynol:

- Chwaraeon elít a phroffesiynol;
- Chwaraeon awyr agored;
- Chwaraeon dan do; a
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Pwrpas pob grŵp yw datblygu dull i ddychwelyd yn raddol ac ystyried cyfleoedd y gellir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o bob adolygiad 21 diwrnod. Mae'r grwpiau hyn hefyd wedi ystyried y canllawiau sydd eu hangen i gefnogi'r sector ac rwy'n falch bod cynrychiolydd o ukactive wedi bod yn rhan o drafodaethau'r grŵp hwyluso chwaraeon a hamdden.

Trwy weithio gyda'i gilydd, nododd y sector fframwaith sylfaenol ar gyfer dychwelyd yn raddol a amlinellwyd yn y cynllun 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi' gan Lywodraeth Cymru. Bydd amseriad a graddau'r gweithgarwch a ailgychwynwyd ar draws y pedwar thema yn y cynllun yn amrywio wrth inni symud ymlaen drwy'r camau ar gyfer codi'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae'r neges yn glir: mae rhai gweithgareddau - oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phellterau cymdeithasol - yn eu cael i ailddechrau'n gynt nag eraill, ac mae angen dull gweithredu cyd gysylltiedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy weithio gyda'i gilydd, mae'r grwpiau wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol i chwaraeon, a gyhoeddwyd gennym fis diwethaf. Mae linc i'r canllawiau wedi'i nodi isod, a'i nod yw cefnogi ailagor cyfleusterau pan fo'r amodau'n iawn.

<https://gov.wales/sport-recreation-and-leisure-guidance-phased-return-html>

Byddwn yn adolygu'r holl gyfyngiadau yn rheolaidd. Rydym wedi mabwysiadu dull cam wrth gam i leddfu'r cyfyngiadau a byddwn yn dysgu o bob cam a gymer i wneud newidiadau pellach. Hyd yn hyn, rydym wedi canolbwyntio ar agor cyfleusterau awyr agored gan fod y risg o drosglwyddo yn is yn yr awyr agored ac mae llawer o gyfleusterau awyr agored bellach ar agor. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i drafod opsiynau ar gyfer ailagor cyfleusterau pellach yn ddiogel mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism